Cyllid &
Thollau EM

www.gov.uk/budd-dal-plant
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM
0300 200 1900
NGT relay (os oes nam ar eich clyw neu os na allwch siarad dros y ffôn), deialwch 18001 ac yna 0300 200 3100

Budd-dal Plant: Cael eich hawliad yn iawn

Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hawlio Budd-dal Plant

Mae ffurflen hawlio ar-lein y gallwch ei defnyddio. Ewch i gov.uk/cymraeg a chwilio am CH2

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl anabl. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar dâp sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni ar gael mewn print bras hefyd. Ffoniwch ein llinellau cymorth i gael rhagor o wybodaeth.

Ffoniwch 0300 200 1900 i gael fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

Llenwch y ffurflen hawlio Budd-dal Plant os ydych chi neu'ch partner yn gyfrifol am blentyn, hyd yn oed os penderfynwch beidio â chael taliadau Budd-dal Plant

Pwy ddylai lenwi'r ffurflen

- dylech chi neu'ch partner lenwi'r ffurflen hon, os ydych yn gyfrifol am blentyn o dan 16 oed (neu blentyn o dan 20 oed os yw mewn addysg neu hyfforddiant cymeradwy)
- dim ond un person sy'n gallu hawlio Budd-dal Plant - bydd y person y dyfernir Budd-dal Plant iddo'n cael credydau Yswiriant Gwladol yn awtomatig tan i'w blentyn droi'n 12 oed - **bydd hyn yn helpu i ddiogelu ei Bensiwn y Wladwriaeth**
- os ydych yn bâr, ac nid yw un ohonoch yn gweithio nac yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, dylai'r unigolyn hwnnw lenwi'r ffurflen er mwyn diogelu ei Bensiwn y Wladwriaeth
- does dim rhaid i chi fod yn rhiant i'r plentyn er mwyn hawlio, ac efallai y cewch hawlio hyd yn oed os nad yw'r plentyn yn byw gyda chi
- gallwch hawlio waeth faint rydych yn ei ennill neu faint o gynilion sydd gennych
- os ydych wedi cyrraedd y DU ac nid ydych yn gweithio, ni allwch hawlio fel arfer tan eich bod wedi byw yn y DU am o leiaf 3 mis - am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/child-benefit-move-to-uk

Dylech hawlio cyn gynted ag y bydd y canlynol yn digwydd

- caiff eich baban ei eni a'i gofrestru (rhaid cofrestru babanod a enir yn y DU yn y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol)
- daw plentyn i fyw gyda chi
- rydych yn mabwysiadu plentyn - os ydych yn y broses o fabwysiadu plentyn, gwnewch gais cyn gynted ag y daw'r plentyn i fyw gyda chi

Os ydych yn byw yn y DU, ac rydych eisoes yn hawlio Budd-dal Plant, gallwch ein ffonio ar 0300 200 1900 i roi gwybod i ni am blentyn newydd os

– mae o dan 6 mis oed
– cafodd ei eni yn y DU
– cafodd ei enedigaeth ei gofrestru yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban

Peidiwch ag oedi cyn hawlio oherwydd gellir ôl-ddyddio Budd-dal Plant am 3 mis yn unig

A yw'ch incwm chi neu incwm eich partner yn fwy na £50,000?

- os oes gennych chi neu'ch partner incwm unigol sy'n fwy na £50,000 yn ystod unrhyw flwyddyn, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r person sydd â'r incwm uwch dalu tâl treth ar yr holl Fudd-dal Plant a gewch, neu ar ran ohono
  - Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel yw'r enw ar hwn
- os byddwch chi neu'ch partner yn penderfynu peidio â chael taliadau Budd-dal Plant, ni fydd yn rhaid i chi dalu'r tâl treth, felly:
  - **os yw incwm unigol y ddau ohonoch yn llai na £50,000**
    - ni fydd yn rhaid i chi dalu'r tâl treth oni bai y bydd eich incwm chi, neu incwm eich partner, yn mynd dros £50,000 yn ystod unrhyw flwyddyn yn y dyfodol
  - **os oes gan y person sydd â'r incwm uchaf incwm sydd rhwng £50,000 a £60,000**
    - bydd y tâl treth yn llai na'r Budd-dal Plant y byddwch chi neu'ch partner yn ei gael - codir tâl ar gyfradd o 1% o swm y Budd-dal Plant a geir ar gyfer pob £100 o incwm rhwng £50,000 a £60,000
    - ni fydd yn rhaid i chi dalu'r tâl treth os penderfynwch beidio â chael taliadau (dewiswch "Nac ydw" ar gyfer cwestiwn 62)
    - os penderfynwch chi neu'ch partner gael taliadau Budd-dal Plant, rhaid i'r person â'r incwm uwch roi gwybod i CThEM drwy gofrestru ar gyfer Hunanasesiad i dalu'r tâl treth bob blwyddyn
  - **os oes gan y person sydd â'r incwm uchaf incwm sy'n fwy na £60,000**
    - bydd swm y tâl treth yr un faint â swm y Budd-dal Plant a gewch chi neu'ch partner
    - ni fydd yn rhaid i chi dalu'r tâl treth os penderfynwch beidio â chael taliadau (dewiswch "Nac ydw" ar gyfer cwestiwn 62)
    - os penderfynwch chi neu'ch partner gael taliadau Budd-dal Plant, rhaid i'r person â'r incwm uwch roi gwybod i CThEM drwy gofrestru ar gyfer Hunanasesiad i dalu'r tâl treth bob blwyddyn

Mae'n bwysig eich bod yn llenwi'r ffurflen a'i hanfon atom, hyd yn oed os penderfynwch beidio â chael taliadau Budd-dal Plant

Sut yr ydym yn cyfrifo'ch incwm

- rydym yn defnyddio'ch incwm net wedi'i addasu i bennu a oes angen i chi dalu'r tâl treth
- nid yw'ch incwm net wedi'i addasu bob amser yr un peth â'ch cyflog neu'r elw a wnewch os ydych yn hunangyflogedig - cyfanswm eich incwm trethadwy ydyw gan gynnwys unrhyw fuddiannau trethadwy a gewch o'ch swydd, llai rhyddhad treth penodol fel taliadau a wnaed yn gros i gynlluniau pensiwn

Am ragor o help neu wybodaeth am:

- Budd-dal Plant, ewch i www.gov.uk/budd-dal-plant
- Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel a sut i gyfrifo faint o dreth y gallai fod yn rhaid i chi ei thalu, ewch i www.gov.uk/tal-treth-budd-dal-plant
- Incwm net wedi'i addasu, ewch i www.gov.uk/guidance/adjusted-net-income
- Hunanasesiad, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-treth-hunanasesiad

Os na allwch ddod o hyd i'r wybodaeth ar-lein, gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900 neu ddefnyddio *NGT Relay* (os oes nam ar eich clyw neu os na allwch siarad dros y ffôn) drwy ddeialu 18001 ac yna 0300 200 3100

Help i lenwi'ch ffurflen hawlio – Tudalen 2

Cwestiynau 1 a 26 – ble i ddod o hyd i'ch rhif Yswiriant Gwladol (neu un eich partner)

Gellir dod o hyd i hwn yn unrhyw un o'r canlynol:

- tystysgrif P60 oddi wrth eich cyflogwr (neu gyflogwr eich partner)
- Hysbysiad Cod TWE neu lythyr oddi wrthym
- slip cyflog oddi wrth eich cyflogwr (neu gyflogwr eich partner)
- llythyr oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Ganolfan Byd Gwaith
- eich Cyfrif Treth Personol (neu Gyfrif Treth Personol eich partner)

Enghraifft o rif Yswiriant Gwladol

QQ 12 34 56 A

Os nad oes gennych rif Yswiriant Gwladol, bydd oedi i'ch hawliad gan y bydd yn rhaid i chi wneud cais am un, a'i gael, cyn y gallwch gael Budd-dal Plant. Anfonwch eich ffurflen hawlio Budd-dal Plant atom nawr – peidiwch ag aros am eich rhif Yswiriant Gwladol.

ewch i www.gov.uk/apply-national-insurance-number

Tudalen 3 o'ch ffurflen hawlio

Cymorth

I gael rhagor o wybodaeth am Fudd-dal Plant, ewch i www.gov.uk/budd-dal-plant

Os bydd angen rhagor o gymorth arnoch gydag unrhyw gwestiwn, ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM.

- Ffôn 0300 200 1900 (yn y DU)
  00 44 300 200 1900 (Dramor)
- *NGT relay* (os oes nam ar eich clyw neu os na allwch siarad dros y ffôn), deialwch 18001 ac yna 0300 200 3100

Cwestiwn 18

Rydych yn atebol i reolaeth mewnfudo:

- os yw'r Swyddfa Gartref yn dweud y gallwch aros yn y DU – a elwir yn 'caniatâd i ddod i mewn neu aros' – ond dim ond os na fyddwch yn hawlio rhai budd-daliadau, credydau treth neu gymorth tai penodol a delir gan Lywodraeth y DU – a elwir yn 'dim hawl i arian cyhoeddus'
- os oes angen caniatâd arnoch i aros yn y DU – a elwir yn 'caniatâd i ddod i mewn neu aros' – ond nid yw'r caniatâd hwnnw gennych
- os yw'ch hawl i ddod i mewn ac aros o ganlyniad i ymrwymiad ysgrifenedig a roddir gan unigolyn arall i fod yn gyfrifol am eich cynhaliaeth a'ch llety

Os ydych yn atebol i reolaeth mewnfudo, neu os nad ydych yn siŵr a ydych ai peidio, efallai y byddwch yn gallu cael Budd-dal Plant o hyd.

Cwestiwn 14

Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r wlad yr ydych wedi byw ynddi ar hyd eich oes. Y DU yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw'n cynnwys Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel.

Peidiwch â chynnwys gwledydd yr ydych yn ymweld â nhw – er enghraifft, ar wyliau neu er dibenion gwaith.

Cwestiwn 15

Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r wlad yr ydych yn byw ynddi y rhan fwyaf o'r amser. Y DU yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw'n cynnwys Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel.

Peidiwch â chynnwys gwledydd yr ydych yn ymweld â nhw – er enghraifft, ar wyliau neu er dibenion gwaith.



1 Amdanoch chi parhad

14 A ydych chi wastad wedi byw yn y DU?
Hynny yw, nid ydych erioed wedi byw y tu allan i'r DU. Darllenwch dudalen 3 o'r CH2 Nodiadau.
Nac ydw – Rwyf wedi byw y tu allan i'r DU, ewch i gwestiwn 15
Ydw – Rwyf bob amser wedi byw yn y DU, ewch i gwestiwn 22

15 A ydych fel arfer yn byw yn y DU?
Darllenwch dudalen 3 o'r CH2 Nodiadau.
Nac ydw – Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 16
Ydw – Os Ydw, ewch i gwestiwn 17

16 Ym mha wlad rydych yn byw fel arfer?
Gwlad

17 Rhowch y dyddiad y gwnaethoch gyrraedd y DU
D D M M B B B B

18 A ydych yn destun rheolaeth mewnfudo ar hyn o bryd, neu wedi bod ar unrhyw adeg yn ystod y 6 mis diwethaf?
Darllenwch dudalen 3 o'r CH2 Nodiadau.
Nac ydw – Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 20
Ydw – Os Ydw, ewch i gwestiwn 19

Ac oddefnydd y swyddfa 2

19 Os ydych wedi bod yn destun rheolaeth mewnfudo o fewn y 3 mis diwethaf, rhowch y dyddiad pan gafodd eich statws mewnfudo ei ganiatáu
D D M M B B B B

20 Beth yw'ch statws cyflogaeth?
Ticiwch y blwch neu'r blychau sy'n berthnasol. Dim ond os ydych erioed wedi byw y tu allan i'r DU y mae angen i chi ateb y cwestiwn hwn.
Chwilio am waith yn y DU
Cyflogedig yn y DU
Hunangyflogedig yn y DU
Dim un o'r rhain – mae gen i ddigon o arian i gynnal fy nheulu yn y DU

Amdanoch chi parhad

21 A ydych chi, neu a fuoch ar unrhyw adeg yn ystod y tri mis diwethaf, yn gweithio mewn gwlad arall neu'n cael budd-daliadau o wlad arall?
Nac ydw/Na fûm – Os Nac ydw/Na fûm, ewch i gwestiwn 22
Ydw/Bûm – Os Ydw/Bûm, rhowch enw'r wlad
Gwlad

22 A ydych yn aelod o Luoedd Arfog EM neu'n was sifil sy'n gweithio dramor?
Nac ydw
Ydw

23 Beth yw'ch statws priodasol neu bartneriaeth sifil?
Ticiwch un blwch sy'n berthnasol. Ystyriwn eich bod yn sengl at ddibenion Budd-dal Plant oni bai eich bod yn byw gyda phartner.
Yn briod neu mewn partneriaeth sifil, ewch i gwestiwn 24
Yn byw gyda phartner fel petaech yn briod neu mewn partneriaeth sifil ers
D D M M B B B B ewch i gwestiwn 24
Yn weddw, ewch i gwestiwn 34
Wedi gwahanu ers
D D M M B B B B ewch i gwestiwn 34
Wedi ysgaru, ewch i gwestiwn 34
Yn sengl, ewch i gwestiwn 34

2 Ynglŷn â'ch partner

24 Enw llawn eich partner

25 Dyddiad geni'ch partner
D D M M B B B B

26 Rhif Yswiriant Gwladol eich partner
Darllenwch dudalen 3 o'r CH2 Nodiadau.
Q Q 1 2 3 4 5 6 A

27 Cenedligrwydd eich partner
Dangosir hwn ar ei basbort os oes un ganddo – er enghraifft, Prydeinig, Gwyddelig, Ffrengig, Pwylaidd.
Cenedligrwydd

Tudalen 3

Tudalennau 5 a 6 o'ch ffurflen hawlio

Cwestiynau 39 a 52

Os cofrestrwyd genedigaeth y plentyn:

- yng Nghymru neu Loegr, bydd angen i chi roi rhif y system - mae hwn yng nghornel isaf ochr chwith tystysgrif geni'r plentyn

  Enghraifft o rif system tystysgrif geni

  123456789

- yn yr Alban, bydd angen i chi roi i ni'r rhif dosbarth, y flwyddyn a'r rhif cofnod - mae'r rhain ar frig tystysgrif geni'r plentyn

  Enghraifft o rif dosbarth, blwyddyn a rhif cofnod ar dystysgrif geni

  123 2000 456

Er mwyn ein helpu i brosesu'ch hawliad heb unrhyw oedi, nodwch y manylion yn glir.

Os ydych yn hawlio ar gyfer plentyn yr hawliwyd ar ei gyfer eisoes, ac nid oes gennych dystysgrif geni'r plentyn, peidiwch ag ateb cwestiynau 39 a 52.

Cwestiynau 43 a 56

Os yw'r plentyn yn byw gyda chi ond mae Budd-dal Plant yn cael ei dalu i rywun arall, mewn rhai amgylchiadau gallwn drosglwyddo'r budd-dal i chi.

Os byddwn yn trosglwyddo'r budd-dal, efallai na chewch daliad Budd-dal Plant tan 4 wythnos (ac mewn rhai achosion 8 wythnos) ar ôl i chi wneud eich hawliad.

Os oes rhywun arall wedi hawlio Budd-dal Plant ar gyfer yr un plentyn â chi, byddwn yn cysylltu â chi.

Cymorth

I gael rhagor o wybodaeth am Fudd-dal Plant, ewch i www.gov.uk/budd-dal-plant

Os bydd angen rhagor o gymorth arnoch gydag unrhyw gwestiwn, ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM.

- Ffôn 0300 200 1900 (yn y DU)
  00 44 300 200 1900 (Dramor)
- *NGT relay* (os oes nam ar eich clyw neu os na allwch siarad dros y ffôn), deialwch 18001 ac yna 0300 200 3100



3 Plant rydych am hawlio ar eu cyfer – Plentyn 1

36 Enw llawn y plentyn, gan gynnwys enw olaf neu enw teuluol
Fel yi dangosir ar y dystysgrif geni neu'r dystysgrif mabwysiadu.
Enw olaf y plentyn
Enw cyntaf y plentyn
Enw(au) canol y plentyn

37 A yw'r plentyn hwn yn wryw neu'n fenyw?
Gwryw Benyw

38 Dyddiad geni'r plentyn
D D M M B B B B

39 A yw genedigaeth y plentyn hwn wedi'i chofrestru yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban?
Nac ydy — Os Nac ydy, anfonwch y dogfennau fel y dangosir ar dudalen 4 y ffurflen hon - 'Dogfennau sydd eu hangen arnom'
Ydy — Os Ydy, a chafodd ei eni yng Nghymru neu Loegr, peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau. **Rhowch y rhif system 9 digid o gornel isaf ochr chwith ei dystysgrif geni** – darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.
Ydy — Os Ydy, a chafodd ei eni yn yr Alban, peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau. **Rhowch y rhif dosbarth, y flwyddyn a'r rhif cofnod o'i dystysgrif geni** – darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau

40 A yw'r plentyn hwn erioed wedi cael ei adnabod yn ôl unrhyw enw arall?
Nac ydy Ydy — Os Ydy, nodwch yr enw arall
Enw arall y plentyn

41 A gafodd yr enw ei newid drwy weithred newid enw?
Naddo Do

42 A yw'r plentyn hwn yn:
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.
Plentyn genedigol Plentyn mabwysiedig
Llysblentyn Dim un o'r rhain

43 A ydych chi neu rywun arall erioed wedi hawlio Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwn? Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.
Nac ydyn — Os Nac ydyn, ewch i gwestiwn 45
Ydyn — Os Ydyn, ewch i gwestiwn 44

44 Beth yw enw a chyfeiriad y person a hawliodd Fudd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwn?
Enw
Cyfeiriad
Cod post

45 A yw'r plentyn hwn yn byw gyda chi yn y DU?
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.
Nac ydy — Os Nac ydy, rhowch enw a chyfeiriad y person y mae'r plentyn yn byw gydag ef
Enw
Cyfeiriad
Cod post
Ydy — Os Ydy, ewch i gwestiwn 46

46 A yw'r plentyn hwn wedi byw gyda rhywun arall mewn cyfeiriad gwahanol i chi yn ystod y 12 mis diwethaf?
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.
Nac ydy — Os Nac ydy, ewch i gwestiwn 48
Ydy — Os Ydy, rhowch ei enw, ei gyfeiriad a'i rif ffôn
Enw
Cyfeiriad
Cod post
Rhif ffôn

47 Ar ba ddyddiad daeth y plentyn i fyw gyda chi?
D D M M B B B B

48 A ydych yn mabwysiadu neu'n bwriadu mabwysiadu'r plentyn hwn drwy awdurdod lleol?
Nac ydw Ydw

At ddefnydd swyddogol yn unig
Tudalen 5

Cwestiynau 45 a 58

Dylech roi 'Nac ydy' fel ateb i'r cwestiwn hwn os nad yw'r plentyn yn byw gyda chi yn y DU. Os yw'r plentyn yn byw gyda rhywun arall, ond eich bod yn talu tuag at gost gofalu amdano, a bod y ddau ohonoch yn hawlio'r budd-dal, y person y mae'r plentyn yn byw gydag ef sydd fel arfer yn cael y Budd-dal Plant.

Cwestiynau 46 a 59

Os bydd y plentyn yn byw gyda mwy nag un person, gall pob person gyflwyno hawliad am Fudd-dal Plant ar gyfer yr un plentyn. Fodd bynnag, dim ond i un person y gellir talu Budd-dal Plant.

Os bydd 2 neu ragor o blant yn cael gofal, gellir talu Budd-dal Plant i bob unigolyn ar gyfer plentyn gwahanol.

Os na allwch gytuno pa un ohonoch sy'n cael y Budd-dal Plant, bydd rhywun sy'n gweithredu ar ran y Comisiynwyr ar gyfer Cyllid a Thollau EM yn penderfynu.

Cwestiynau 42 a 55

Os nad chi yw rhiant y plentyn ond rydych yn gofalu am y plentyn, gallwch hawlio Budd-dal Plant o hyd.

Os oes gennych lys blentyn neu blentyn a fabwysiadwyd yn gyfreithiol, caiff ei ystyried fel eich plentyn chi.

Mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol i bob plentyn ar y ffurflen hawlio hon

Tudalen 7 o'ch ffurflen hawlio

Cwestiwn 62

Dim ond os yw'ch incwm unigol chi neu'ch partner yn fwy na £50,000 y flwyddyn y dylech ateb y cwestiwn hwn.

Mae'n bwysig hawlio Budd-dal Plant i ddiogelu'ch Pensiwn y Wladwriaeth.

Gallwch benderfynu peidio â chael tâl Budd-dal Plant os nad ydych eisiau talu'r tâl treth ychwanegol.

Gweler 'A yw'ch incwm chi neu incwm eich partner yn fwy na £50,000?' ar dudalen 2.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/tal-treth-budd-dal-plant

Cwestiwn 66

Rydym yn eich annog i ystyried manteision cael eich Budd-dal Plant wedi'i dalu i mewn i gyfrif sydd:

- yn eich enw chi
- yn enw eich gŵr, gwraig neu bartner - os oes un gennych
- yn eich enw chi a'ch gŵr, gwraig neu bartner
- yn enw rhywun sy'n gweithredu ar eich rhan
- yn eich enw chi a rhywun sy'n gweithredu ar eich rhan

Mae talu i mewn i gyfrif yn eich enw chi yn eich galluogi i gael mynediad at eich Budd-dal Plant pan fyddwch ei angen.
Fodd bynnag, os ydych eisiau defnyddio cyfrif nad yw yn eich enw chi, gallwch wneud hynny. Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau eich bod yn cael yr arian neu fod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd yr ydych ei heisiau.
Ni allwn dalu i mewn i:

- mwy nag un cyfrif
- cyfrif Nationwide sydd yn enw rhywun arall

Y ffordd orau o barhau i fod â rheolaeth ar eich Budd-dal Plant yw trefnu ei fod yn cael ei dalu i mewn i gyfrif yn eich enw chi. Efallai na fydd hi mor hawdd cael gafael ar eich taliadau os caiff y rhain eu talu i mewn i gyfrif arall.

Cwestiynau 63 a 64

Fel arfer telir Budd-dal Plant bob 4 wythnos. Fodd bynnag, gallwch ddewis cael eich Budd-dal Plant wedi ei dalu'n wythnosol os ydych yn magu plant ar eich pen eich hun, neu os ydych chi (neu'ch partner os oes un gennych) yn cael:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ymwneud ag incwm
- Credyd Cynhwysol

Os ydych am gael Budd-dal Plant wedi'i dalu'n wythnosol, rhowch wybod i ni pam eich bod yn gymwys yng nghwestiwn 64.

Os ydych yn gymwys ac yn dewis cael eich Budd-dal Plant wedi'i dalu bob wythnos, rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os na fyddwch:

- yn magu plant ar eich pen eich hun mwyach
- yn cael o leiaf un o'r budd-daliadau uchod mwyach

Os bydd hyn yn digwydd, gallwn roi'r gorau i dalu'ch Budd-dal Plant yn wythnosol a'i newid i daliadau bob 4 wythnos.


4 Enillwyr incwm uwch

Dim ond os yw'ch incwm unigol chi neu incwm unigol eich partner yn fwy na £50,000 y flwyddyn y dylech ateb cwestiwn 62.
Os yw'ch incwm unigol chi neu incwm unigol eich partner:
• yn fwy na £60,000 y flwyddyn - bydd tâl treth sy'n gyfwerth â'r taliad Budd-dal Plant yn gymwys, felly efallai na fyddwch am i Fudd-dal Plant gael ei dalu i chi
• rhwng £50,000 a £60,000 y flwyddyn - bydd tâl treth sy'n llai na'r taliad Budd-dal Plant yn gymwys, felly efallai y byddwch am i Fudd-dal Plant gael ei dalu i chi
Os nad ydych yn siŵr a yw'ch incwm unigol chi neu incwm unigol eich partner yn fwy na £50,000, darllenwch dudalen 2 o'r CH2 Nodiadau.

62 A ydych am i Fudd-dal Plant gael ei dalu i chi?
Dim ond os yw'ch incwm unigol chi neu incwm unigol eich partner yn fwy na £50,000 y flwyddyn y dylech ateb y cwestiwn hwn. Darllenwch dudalen 5 o'r CH2 Nodiadau.
Nac ydw — Nid wyf am i Fudd-dal Plant gael ei dalu i mi, ond rwyf am ddiogelu fy Mhensiwn y Wladwriaeth. Ewch i'r datganiad ar dudalen 8
Ydw — Rwyf am i Fudd-dal Plant gael ei dalu i mi. Rwy'n deall efallai y bydd yn rhaid i mi neu fy mhartner dalu tâl Treth Incwm. Ewch i gwestiwn 63

5 Sut yr hoffech gael eich talu

63 A ydych am i Fudd-dal Plant gael ei dalu i chi bob wythnos?
Fel arfer byddwn yn talu Budd-dal Plant bob 4 wythnos i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.
Mae tudalen 5 o'r CH2 Nodiadau yn rhoi gwybod a oes modd eich talu bob wythnos.
Nac ydw — Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 65
Ydw — Os Ydw, ewch i gwestiwn 64

64 I gael taliadau Budd-dal Plant bob wythnos, ticiwch bob blwch sy'n berthnasol i chi neu'ch partner
Rwyf yn rhiant sengl
Rwyf i, neu mae fy mhartner, yn cael un neu ragor o'r canlynol:
• Cymhorthdal Incwm
• Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
• Credyd Pensiwn
• Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ymwneud ag incwm
• Credyd Cynhwysol

65 A ydych eisoes yn cael Budd-dal Plant?
Nac ydw — Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 66
Ydw — Os Ydw, byddwn yn talu'ch Budd-dal Plant i'r cyfrif banc/cymdeithas adeiladu sydd gennym eisoes. Ewch i'r datganiad ar dudalen 8

6 Manylion banc

66 Ticiwch y blwch sy'n berthnasol i chi
Darllenwch dudalen 5 o'r CH2 Nodiadau cyn llenwi'r adran hon.
Gallwn dalu Budd-dal Plant i mewn i gyfrif a enwebir gennych os yw'r cyfrif yn gallu trosglwyddiad credyd uniongyrchol - er enghraifft, cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu addas.
Mae'r cyfrif yn fy enw i - ewch i gwestiwn 67
Mae'r cyfrif yn enw rhywun arall - rhowch wybod i ni beth yw eu deiliad y cyfrif yn y blwch isod
Mae'r cyfrif mewn enwau ar y cyd - rhowch wybod i ni beth yw enwau deiliaid y cyfrif yn y blwch isod
Enw 1
Enw 2

67 Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu

68 Cod didoli'r gangen. Darllenwch dudalen 5 o'r CH2 Nodiadau.

69 Rhif y cyfrif. Darllenwch dudalen 5 o'r CH2 Nodiadau.

70 Os yw'r cyfrif gyda chymdeithas adeiladu, rhowch gwybod i ni'r rhif rôl neu'r cyfeirnod os yw'r rhif gennych
Darllenwch dudalen 5 o'r CH2 Nodiadau.

71 Os nad oes gennych gyfrif y gallwn dalu i mewn iddo, rhowch 'X' yn y blwch hwn

Pwysig
Llenwch y datganiad ar dudalen 8.

Tudalen 7

Cwestiwn 68

Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r cod didoli a ddangosir ar eich cerdyn banc neu gyfriflenni o'ch banc neu'ch cymdeithas adeiladu. Os nad yw'r cyfrif yn eich enw chi, bydd angen i chi gael cod didoli'r gangen. Cod 6 digid yw hwn fel arfer. Cofiwch gynnwys unrhyw sero sydd yn y rhif - er enghraifft, 00 11 22.

Cwestiwn 69

Mae'ch rhif cyfrif fel arfer yn 8 digid ac fe'i dangosir ar eich cyfriflenni neu'ch llyfr siec. Os nad yw'r cyfrif yn eich enw chi, bydd angen i chi gael manylion y cyfrif banc. Cofiwch gynnwys unrhyw sero sydd yn y rhif - er enghraifft, 00123456.

Osgoi gordaliadau
Rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar eich Budd-dal Plant. Os na rowch wybod i ni am unrhyw newidiadau ar yr adeg iawn, bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw arian na ddylai fod wedi'i dalu i chi.

I gael gwybodaeth am newidiadau sy'n effeithio ar eich Budd-dal Plant, ewch i www.gov.uk/rhoi-gwybod-am-newidiadau-budd-dal-plant

Cwestiwn 70

Os yw'ch cyfrif gyda chymdeithas adeiladu, neu fanc a oedd yn arfer bod yn gymdeithas adeiladu, efallai y bydd gennych gyfeirnod ychwanegol. Mae'n bosibl y bydd y rhif hwn yn cael ei alw'n:

- rhif rôl
- cyfeirnod cyfrif
- rhif cyfrif

Os nad ydych yn siŵr pa rifau i'w nodi, holwch eich banc neu gymdeithas adeiladu. Os nad yw'ch cyfrif gyda banc neu gymdeithas adeiladu - er enghraifft, cyfrif ag Undeb Credyd neu ddarparwr arall - dylech bob amser wirio gyda nhw pa wybodaeth sydd ei hangen gennych er mwyn talu'r arian i mewn i'ch cyfrif.

Pethau eraill y gallai fod angen i chi wybod amdanynt

Credydau Yswiriant Gwladol

Cyn 6 Ebrill 2010, os oeddech yn cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 16 oed, roeddech yn gymwys yn awtomatig ar gyfer cynllun a alwyd yn 'Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref' *(Home Responsibility Protection (HRP))*, a oedd yn helpu i ddiogelu'ch Pensiwn y Wladwriaeth.

O 6 Ebrill 2010 ymlaen, am bob wythnos y mae gennych hawl i gael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 12 oed, cewch gredydau Yswiriant Gwladol wythnosol i ddiogelu'ch hawl i Bensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol.

Os cyrhaeddwch oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010, caiff unrhyw flynyddoedd treth cyflawn o HRP a gronnwyd gennych eisoes cyn 2010 eu trosi'n flynyddoedd cymwys. Gellir trosi hyd at 22 mlynedd o HRP yn flynyddoedd cymwys ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth.

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900.

Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Siarter CThEM' yn esbonio'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Grŵp Gwasanaeth i Gwsmeriaid CThEM
Ebrill 2021 © Hawlfraint y Goron 2021

CThEM 04/21

Plant ychwanegol llenwch y ffurflen hon a'i hatodi i'ch ffurflen hawlio Budd-dal Plant wedi'i llenwi

Datgysylltwch yn y fan hon

Plentyn 3

1 **Enw llawn y plentyn gan gynnwys enw olaf neu enw teuluol**
Fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni neu'r dystysgrif mabwysiadu.

Enw **olaf** y plentyn

Enw **cyntaf** y plentyn

Enw(au) **canol** y plentyn

2 **A yw'r plentyn hwn yn wryw neu'n fenyw?**

Gwryw ☐ Benyw ☐

3 **Dyddiad geni'r plentyn**

D D M M B B B B

4 **A yw genedigaeth y plentyn hwn wedi ei chofrestru yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban?**

Nac ydy ☐ Os Nac ydy, anfonwch y dogfennau fel y dangosir ar dudalen 4 o'r ffurflen hawlio Budd-dal Plant CH2 - 'Dogfennau sydd eu hangen arnom'

Ydy ☐ Os Ydy, ac fe'i ganwyd yng Nghymru neu Loegr, peidiwch ag anfon dogfennau, **rhowch wybod i ni beth yw'r rhif system 9 digid o gornel isaf ochr chwith ei dystysgrif geni** - darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau

☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Ydy ☐ Os Ydy, ac fe'i ganwyd yn yr Alban, peidiwch ag anfon dogfennau, **rhowch wybod i ni beth yw'r rhif dosbarth, y flwyddyn a'r rhif cofnod o'i dystysgrif geni** - darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau

☐☐☐ ☐☐☐☐ ☐☐☐

5 **A yw'r plentyn hwn erioed wedi'i adnabod gan unrhyw enw arall?**

Nac ydy ☐ Ydy ☐ Os Ydy, rhowch wybod i ni beth oedd yr enw arall

Enw arall y plentyn

6 **A yw'r enw wedi cael ei newid drwy weithred newid enw?**

Nac ydy ☐ Ydy ☐

at ddefnydd y swyddfa 18 ☐

7 **A yw'r plentyn hwn yn:**
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Plentyn genedigol ☐ Plentyn mabwysiedig ☐

Llysblentyn ☐ Dim un o'r rhain ☐

8 **A ydych chi neu rywun arall erioed wedi hawlio Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwn?**
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydyn ☐ Os Nac ydyn, ewch i gwestiwn 10

Ydyn ☐ Os Ydyn, ewch i gwestiwn 9

Datgysylltwch yn y fan hon

at ddefnydd y swyddfa 17 ☐

Plentyn 3 parhad

9 **Beth yw enw a chyfeiriad y person a hawliodd Fudd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwn?**

Enw

Cyfeiriad

Cod post

10 **A yw'r plentyn hwn yn byw gyda chi yn y DU?**
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydy ☐ Os Nac ydy, rhowch wybod i ni beth yw enw a chyfeiriad y person y mae'r plentyn hwn yn byw gydag ef

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Ydy ☐ Os Ydy, ewch i gwestiwn 11

at ddefnydd y swyddfa 19 ☐

at ddefnydd y swyddfa 20 ☐

11 **A yw'r plentyn hwn wedi byw gyda rhywun arall mewn cyfeiriad gwahanol i chi yn ystod y 12 mis diwethaf?**
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydy ☐ Os Nac ydy, ewch i gwestiwn 13

Ydy ☐ Os Ydy, rhowch wybod i ni beth yw ei enw, ei gyfeiriad a'i rif ffôn

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

12 **Ar ba ddyddiad daeth y plentyn i fyw gyda chi?**

D D M M B B B B

13 **A ydych yn mabwysiadu neu'n bwriadu mabwysiadu'r plentyn hwn drwy awdurdod lleol?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

14 **A ydych am hawlio ar gyfer rhagor o blant yn awr?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, rhwygwch y ddalen hon i ffwrdd ac ewch i gwestiwn 62 ar eich ffurflen hawlio

Ydw ☐ Os Ydw, llenwch dudalen 8

At ddefnydd swyddogol yn unig

Cofiwch anfon y ddalen hon gyda'ch ffurflen hawlio wedi'i llenwi

Plant ychwanegol llenwch y ffurflen hon a'i hatodi i'ch ffurflen hawlio Budd-dal Plant wedi'i llenwi

Plentyn 4

1 **Enw llawn y plentyn gan gynnwys enw olaf neu enw teuluol**
Fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni neu'r dystysgrif mabwysiadu.

Enw **olaf** y plentyn

Enw **cyntaf** y plentyn

Enw(au) **canol** y plentyn

2 **A yw'r plentyn hwn yn wryw neu'n fenyw?**

Gwryw ☐ Benyw ☐

3 **Dyddiad geni'r plentyn** (at ddefnydd y swyddfa 21 ☐)

D D M M B B B B

4 **A yw genedigaeth y plentyn hwn wedi ei chofrestru yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban?**

Nac ydy ☐ Os Nac ydy, anfonwch y dogfennau fel y dangosir ar dudalen 4 o'r ffurflen hawlio Budd-dal Plant CH2 - 'Dogfennau sydd eu hangen arnom'

Ydy ☐ Os Ydy, ac fe'i ganwyd yng Nghymru neu Loegr, peidiwch ag anfon dogfennau, **rhowch wybod i ni beth yw'r rhif system 9 digid o gornel isaf ochr chwith ei dystysgrif geni** - darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau

☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Ydy ☐ Os Ydy, ac fe'i ganwyd yn yr Alban, peidiwch ag anfon dogfennau, **rhowch wybod i ni beth yw'r rhif dosbarth, y flwyddyn a'r rhif cofnod o'i dystysgrif geni** - darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau

☐☐☐ ☐☐☐☐ ☐☐☐

5 **A yw'r plentyn hwn erioed wedi'i adnabod gan unrhyw enw arall?**

Nac ydy ☐ Ydy ☐ Os Ydy, rhowch wybod i ni beth oedd yr enw arall

Enw arall y plentyn

6 **A yw'r enw wedi cael ei newid drwy weithred newid enw?**

Nac ydy ☐ Ydy ☐

7 **A yw'r plentyn hwn yn:** (at ddefnydd y swyddfa 22 ☐)
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Plentyn genedigol ☐ Plentyn mabwysiedig ☐

Llysblentyn ☐ Dim un o'r rhain ☐

8 **A ydych chi neu rywun arall erioed wedi hawlio Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwn?**
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydyn ☐ Os Nac ydyn, ewch i gwestiwn 10

Ydyn ☐ Os Ydyn, ewch i gwestiwn 9

Plentyn 4 parhad

9 **Beth yw enw a chyfeiriad y person a hawliodd Fudd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwn?**

Enw

Cyfeiriad

Cod post

10 **A yw'r plentyn hwn yn byw gyda chi yn y DU?** (at ddefnydd y swyddfa 23 ☐)
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydy ☐ Os Nac ydy, rhowch wybod i ni beth yw enw a chyfeiriad y person y mae'r plentyn hwn yn byw gydag ef

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Ydy ☐ Os Ydy, ewch i gwestiwn 11

11 **A yw'r plentyn hwn wedi byw gyda rhywun arall mewn cyfeiriad gwahanol i chi yn ystod y 12 mis diwethaf?** (at ddefnydd y swyddfa 24 ☐)
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydy ☐ Os Nac ydy, ewch i gwestiwn 13

Ydy ☐ Os Ydy, rhowch wybod i ni beth yw ei enw, ei gyfeiriad a'i rif ffôn

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

12 **Ar ba ddyddiad daeth y plentyn i fyw gyda chi?**

D D M M B B B B

13 **A ydych yn mabwysiadu neu'n bwriadu mabwysiadu'r plentyn hwn drwy awdurdod lleol?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

14 **A ydych am hawlio ar gyfer rhagor o blant yn awr?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, rhwygwch y ddalen hon i ffwrdd ac ewch i gwestiwn 62 ar eich ffurflen hawlio

Ydw ☐ Os Ydw, atebwch gwestiynau 1 i 14 ar ddalen o bapur ar wahân neu lawrlwythwch y ffurflen 'Plant ychwanegol'

Ewch i www.gov.uk/government/publications/child-benefit-claim-form-ch2.cy a dewis 'Hawlio Budd-dal Plant ar gyfer plant ychwanegol (ffurflen hawlio ar gyfer plant ychwanegol) (CH2 (CS))'.

Datgysylltwch yn y fan hon

Datgysylltwch yn y fan hon

At ddefnydd swyddogol yn unig

Cofiwch anfon y ddalen hon gyda'ch ffurflen hawlio wedi'i llenwi